Road Safety Wales
Diogelwch Ffyrdd Cymru
Low Down

E-sgwteri: Beth mae angen i chi wybod

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn annog pobl i wybod y Gyfraith yn ymwneud â sgwteri trydan neu E-sgwteri cyn prynu neu ddefnyddio un.

Mae E-sgwteri wedi cynyddu mewn poblogrwydd dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae tipyn o ddryswch ynghylch ble mae hawl eu defnyddio. Dim ond ar dir preifat mae hawl eu gyrru ar hyn o bryd gyda chaniatâd perchennog y tir, neu fel rhan o dreialon y Llywodraeth.

Mae Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn cymryd rhan mewn treialon 'Parth Trafnidiaeth y Dyfodol' ar gyfer llogi e-sgwter, gyda'r bwriad o'u gwneud yn gyfreithlon i'w defnyddio ar y ffordd. Serch hynny, ar hyn o bryd, nid yw gogledd Cymru yn rhan o'r treialon hyn.

Mae swyddogion yn atgoffa pobl bod gyrru e-sgwteri yn gyhoeddus pan nad yw'n rhan o dreial swyddogol yn erbyn y gyfraith a gall arwain at bwyntiau cosb, dirwy ac atafaelu'r cerbyd.

Ystyrir e-sgwteri yn Gerbydau Trydanol Ysgafn Personol (PLEVs), felly maent yn yr un dosbarth â cherbyd modur ac yn atebol i'r un gofynion cyfreithiol â cherbyd modur fel MOT, trwydded, treth ac yswiriant. Gan nad oes gan e-sgwteri blatiau rhifau na'r gallu i ddangos troi i'r chwith neu'r dde, ni ellir eu defnyddio yn gyfreithlon ar y ffyrdd.

Mae'r Rhingyll Liam Ho o Uned Plismona Ffyrdd yn annog pobl leol i ddod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth. Dywedodd: "Mae'n hawdd cael eich temtio i brynu e-sgwter, yn enwedig gan eu bod yn hawdd i'w prynu gan fân-werthwyr poblogaidd.

"Serch hynny, mae'r gyfraith yn glir. Mi allwch brynu un ond ni allwch ei yrru ar ffordd gyhoeddus, lôn beics neu ar y pafin. Dim ond ar dir preifat gellir defnyddio e-sgwter gyda chaniatâd perchennog y tir.

"Wrth i'r haf nesáu rydym am sicrhau bod plant a rhieni/gofalwyr yn deall pa mor beryglus yw'r peiriannau hyn i'r rhai sy'n eu gyrru ac i gerddwyr hefyd. Yn aml, gall gyrwyr e-sgwter yrru hyd at 60mya - yn aml heb wisgo helmed - felly nid yw'n anodd dychmygu beth allai ddigwydd mewn gwrthdrawiad."

Ychwanegodd Rhingyll Ho: "Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r cyhoedd i'w gwneud yn ymwybodol o'r gyfraith yn ymwneud â e-sgwteri ac rwyf yn annog rhieni a gofalwyr i sicrhau bod eu plant yn dilyn yr argymhellion yn gywir.

IN THIS ISSUE:

Amlygu'r Gyfraith E-Sgwteri

Gweledigaeth Newydd ar gyfer Trafnidiaeth

Newidiadau yn Nherfyn Cyflymder yr M4

Addysg Diogelwch ar y Ffyrdd yn RhCT

Terfyn Cyflymder 20mya i Gymru

Brecio cyn y troy n y ffordd

Llywodraeth Cymru yn pennu targedau uchelgeisiol yn ei gweledigaeth newydd ar gyfer trafnidiaeth

Nod y strategaeth newydd – sy'n dilyn ymgynghoriad mawr dros y flwyddyn diwethaf – yw annog pobl i gefnu ar eu ceir, gyda tharged newydd i 45% o deithiau gael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy ledled Cymru erbyn 2045, i fyny o 32% ar hyn o bryd.

Mae Llwybr Newydd yn ymrwymo i leihau allyriadau trafnidiaeth fel rhan o'r ymdrech i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Ar hyn o bryd mae trafnidiaeth yn gyfrifol am 17% o allyriadau carbon Cymru.

Mae'r strategaeth yn dod wrth i fwy na £210m gael ei fuddsoddi ledled Cymru yn 2021/22.

Mae mwy na £115m yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol i'w wario ar brosiectau trafnidiaeth a fydd yn cefnogi'r ymrwymiadau yn Llwybr Newydd.

Yn ogystal, mae £70m ar gael i Gyngor Sir Blaenau Gwent i sicrhau'r gwasanaeth ychwanegol rhwng Casnewydd a Glynebwy, a chyfrannu at uchelgais tymor hwy o bedwar trên yr awr. Bydd yr arian yn galluogi gwelliannau i'r seilwaith, a fydd yn cael eu gwneud ochr yn ochr â Network Rail a Thrafnidiaeth Cymru.

Bydd buddsoddiad arall o £25 miliwn yn cefnogi prosiect Porth Wrecsam, gan greu system drafnidiaeth lle mae cysylltiadau gwell rhwng bysiau a threnau, a datblygu'r ardal o amgylch Wrecsam Cyffredinol. Yn ystod 2021/22, bydd £75m yn cael ei wario ar deithio llesol, cynnydd o £5m ar ddechrau'r tymor hwn o Lywodraeth Cymru.

Dywedodd Ken Skates, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, "Mae cyhoeddi Llwybr Newydd yn drobwynt. Bydd y strategaeth yn helpu i ail-lunio trafnidiaeth yng Nghymru yn sylfaenol. Bydd yn annog seilwaith newydd a gwyrddach ac yn newid y ffordd rydyn ni'n gwneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi mewn trafnidiaeth ledled y wlad.

Mae'r argyfwng hinsawdd yn real iawn ac mae'n golygu bod yn rhaid inni gymryd camau brys i leihau ôl troed carbon y system drafnidiaeth yng Nghymru. Dyna pam rydyn ni wedi pennu targedau newydd uchelgeisiol ar gyfer dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy fel cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Bydd hyn yn helpu i leihau dibynnu ar y car drwy wneud dewisiadau amgen cynaliadwy yn fwy deniadol.

Mae gwneud hyn yn golygu buddsoddi mewn opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus amgen o ansawdd uchel, a dyna pam rydyn ni'n darparu mwy na £210m mewn cynlluniau trafnidiaeth a fydd yn cyfrannu at yr uchelgeisiau yn ein cynllun newydd.

Rydyn ni wedi dechrau'n dda, gyda buddsoddiadau mawr mewn pethau fel y Metro, ond rydyn ni'n gwybod y bydd angen inni wneud mwy a gweithredu'n gyflymach, ac mae Llwybr Newydd yn ein rhoi ni ar ein ffordd i greu system drafnidiaeth sy'n wirioneddol addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ychwanegodd Lee Waters, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, "Dim ond os gallwn ni ddarparu dewisiadau amgen cyfleus yn lle'r car y bydd rhwydwaith trafnidiaeth gwyrddach yn llwyddo. Bydd buddsoddi mewn trenau, bysiau a llwybrau beicio nid yn unig yn helpu pobl i deithio o le i le, ond bydd yn ei gwneud yn haws dewis dulliau trafnidiaeth sy'n diogelu ein planed ac yn cyfrannu at gyfiawnder cymdeithasol.

"Rydyn ni'n cyflawni'r strategaeth hon mewn pandemig ond nid yw hynny'n mynd i'n hatal rhag bod yn uchelgeisiol. Yn wir, dim ond gwneud y mater yn bwysicach y mae – bydd trafnidiaeth gyhoeddus o ansawdd uchel yn hanfodol ar gyfer adferiad tecach, gwyrddach a mwy cyfartal yn dilyn Covid.

"Mae'r cynnydd mewn gweithio o bell yn amlygu'r newidiadau mawr sydd ar y gweill yn ein heconomi. Mae teithiau lleol yn arbennig o addas ar gyfer beicio a cherdded ac rydyn ni'n adeiladu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n diwallu anghenion y dyfodol, nid anghenion y gorffennol.

Newidiadau i'r cyfyngiadau cyflymder ar yr M4

Mae'r terfyn 50mya parhaol gyda chyflymder cyfartalog yn cael ei orfodi rhwng cyffyrdd 24 a 28 ar yr M4 bellach yn fyw.

Mae'r mesur yn rhan o ddull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â thagfeydd yn yr ardal fel yr argymhellwyd yn adroddiad yr Arglwydd Burns a gyhoeddwyd yn dilyn y gwaith a wnaed gan Gomisiwn Traffig De Ddwyrain Cymru a sefydlwyd i edrych ar wella symudiad cerbydau ar hyd coridor yr M4 o gwmpas Casnewydd.

Bydd rhagor o wybodaeth am y llwybrau dargyfeirio ac unrhyw darfu ar y cyhoedd sy'n teithio ar wefan Traffig Cymru.

Bydd y camerâu yn weithredol a bydd y terfyn cyflymder gorfodol 50mya yn cael ei fonitro'n agos gan GanBwyll yn ystod cyfnod sefydlu. Bydd yn caniatáu i systemau llawn a gwiriadau gorfodi gael eu cynnal ac yn rhoi amser i fodurwyr ddod i arfer â'r terfyn cyflymder newydd. Bydd hysbysiadau erlyn yn dechrau cael eu cyhoeddi yn yr Haf.

Bwriad y newid yw:

- **Helpu i reoli tagfeydd ar hyd y rhan hon o'r M4**
- **Gwella amseroedd teithio a darparu llif traffig llyfnach**
- **Lleihau'r risg o ddamweiniau**
- **Gwell ansawdd aer trwy leihau lefelau yr allyriadau**

Dywedodd Ken Skates, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, "Mae'r gwaith hwn yn dangos ymrwymiad y Llywodraeth hon i fynd i'r afael â thagfeydd yn y rhanbarth. Rydym yn gwneud hyn yng nghyd-destun yr argyfwng hinsawdd a'n hamcan clir o leihau allyriadau o'r sector trafnidiaeth.

Cynhyrchodd Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru nifer o argymhellion i fynd i'r afael â thagfeydd yr oeddem yn hapus i'w cymeradwyo. Mae Uned Ddatblygu Trafnidiaeth Cymru gyda'r dasg o'n cefnogi i fwrw ymlaen ag argymhellion ehangach yr Arglwydd Burns a byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i wella teithiau yn yr ardal."

Dywedodd Teresa Ciano, Rheolwr Partneriaeth GanBwyll, "Mae GanBwyll wedi ymrwymo i gefnogi ein partneriaid awdurdod priffyrdd i sicrhau y cedwir at y cyfyngiadau cyflymder ar ein ffyrdd. Mae yna nifer o fuddion i derfyn cyflymder is ar y rhan hon o'r ffordd a dylai cerbydau sy'n defnyddio'r ffordd weld diogelwch ar y ffyrdd a gwella teithiau. Byddwn yn adolygu'r traffig ar ôl y newidiadau ac yn barod i orfodi'r terfyn cyflymder os oes angen."

Addysg Diogelwch ar y Ffyrdd yn Rhondda Cynon Taf

Mae'r tîm diogelwch ar y ffyrdd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi bod yn brysur yn dychwelyd i'w gwaith gydag ysgolion yn ddiweddar.

Gan nad oes modd mynd allan ar gyfer Kerbcraft a Hyfforddiant i Gerddwyr o Blant, mae'r tîm wedi bod yn treialu dulliau eraill o ddarparu addysg diogelwch ar y ffyrdd.

Mae ffilm ryngweithiol wedi'i chreu ac mae wedi cael derbyniad da iawn gan blant ac athrawon fel ei gilydd. Gallwch weld y ffilm yma.

Yn ddiweddar, aeth Matt Penny, Swyddog Diogelwch ar y Ffyrdd, i Ysgol Gynradd Pen-y-waun yng nghwm Cynon. Dywedodd Matt, "Roedd y plant yn awyddus i ddangos beth roedden nhw wedi'i gofio o'r sesiynau hyfforddi ac aeth pob un ati i wneud poster bach imi.

"Bydd rhai o'r posteri hyn, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar reolau'r groes werdd, yn cael eu codi o amgylch adran fabanod yr ysgol i atgoffa pobl eraill am bwysigrwydd croesi'r ffordd yn ddiogel."

Terfyn cyflymder 20mya i ddod yn realiti ar ffyrdd Cymru o'r haf hwn

Mae cynlluniau ar gyfer terfyn cyflymder diofyn o 20 milltir yr awr ar ffyrdd Cymru wedi symud gam yn nes wrth i wyth ardal beilot i dreialu'r newid gael eu cadarnhau.

Dywedodd Lee Waters, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, y bydd y symud yn lleihau damweiniau ac yn achub bywydau.

Bydd yr ardaloedd peilot yn cael cychwyn fesul cam o'r haf hwn tan ddiwedd y flwyddyn. Maent i ddod cyn cyflwyno'r cynllun cenedlaethol yn Ebrill 2023, a byddant yn helpu i ddatblygu trefniadau gorfodi a goresgyn unrhyw faterion annisgwyl cyn eu cyflwyno'n llawn.

Bwriedir i'r ardaloedd sydd wedi'u dewis gynrychioli gwahanol leoliadau ar draws Cymru, gan gynnwys pentrefi, trefi a dinasoedd. Byddant yn canolbwyntio ar ymgysylltu â chymunedau, sy'n golyg y byddant yn datblygu trefniadau gorfodi a hefyd yn hyrwyddo gwerth y terfyn cyflymder newydd, gan gyflwyno'r achos y bydd lleihau cyflymder yn arwain at gymunedau mwy cydlynus a diogel.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r terfyn cyflymder newydd i wella diogelwch a helpu i wneud strydoedd Cymru yn leoedd mwy croesawgar i feicwyr a cherddwyr.

Mae canfyddiadau cychwynnol arolwg agwedd y cyhoedd cenedlaethol wedi canfod cefnogaeth i'r cynlluniau. Pan ofynnwyd iddynt beth hoffent i'r terfyn cyflymder fod ar eu stryd, Awgrymodd 92% o'r rhai a ddywedodd eu bod yn hoffi gweld newid, y byddant yn dymuno gweld terfyn cyflymder o 20mya neu'n is ac roedd 77% eisiau gweld y terfyn cyflymder hwn yn cael ei weithredu ledled yr ardal lle maen nhw'n byw.

Dywedodd Lee Waters, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, "Mae gwneud 20mya y terfyn cyflymder diofyn mewn ardaloedd preswyl yn gam beiddgar a fydd yn arbed bywydau.

"Rydym wedi gwneud cynnydd o ran lleihau marwolaethau ac anafiadau difrifol ar ein ffyrdd dros yr 21 mlynedd o ddatganoli, ond er gwaethaf ein hymdrechion sylweddol digwyddodd y gyfran uchaf o'r holl anafusion, 50%, ar ffyrdd 30mya yn ystod 2018. Ni ellir goddef hyn, felly mae'n rhaid i ostyngiad i 20 mya ar ein ffyrdd preswyl a threfol eraill lle mae gweithgaredd prysur i gerddwyr fod y ffordd ymlaen.

"Mae gostwng cyflymderau yn lleihau damweiniau ac yn arbed bywydau, ac ochr yn ochr â hyn bydd ansawdd bywyd yn gwella, gan wneud lle ar ein strydoedd ar gyfer teithio llesol mwy diogel. Mae hyn yn helpu i leihau ein heffaith amgylcheddol ac mae ganddo ganlyniad cadarnhaol i'n lles corfforol a meddyliol."

Bydd wyth ardal beilot lle byddwn yn treialu 20mya ar ffyrdd cyfyngedig - ffyrdd sydd â chyfyngiad 30mya ar hyn o bryd ac sydd â goleuadau stryd. Yr aneddiadau hyn yw:

- **Y Fenni, Sir Fynwy**
- **Canol Gogledd Caerdydd**
- **Glan Hafren, Sir Fynwy**
- **Bwcle, Sir y Fflint**
- **Pentref Cil-ffriw, Castell-nedd Port Talbot**
- **Llandudoch, Sir Benfro**
- **Sant-y-brid, Bro Morgannwg**
- **Gogledd Llanelli, Sir Gaerfyrddin**

Brecio cyn y troy n y ffordd

Mae Cymru ar y Beic yn tynnu sylw at sut gall ffyrdd gwledig gynnig y cyffro mae rhai beicwyr modur yn chwilio amdano, hyd yn oed wrth gymudo i'r gwaith yn ystod y cyfyngiadau symud, ond yn nodi hefyd bod gan y ffyrdd hyn droadau cas neu ddall yn aml, a'r rheiny'n gallu cuddio peryglon posibl di-rif.

Gall perthi, coed a hyd yn oed adeiladau guddio'r hyn y gallwn ei weld a gall peryglon o'n blaenau fod yn aneglur. Mae hefyd bob amser yn bosibl dod ar draws anifeiliaid ar y ffyrdd wrth i ni fynd i mewn i dro yn y ffordd neu ddod allan ohono.

Ystyriwch hyn: mae'n bosibl y byddwch wedi gwneud yr un daith miloedd o weithiau, rydych yn gwybod pa mor sydyn yw'r tro nesaf yn y ffordd, rydych hyd yn oed yn gwybod ble mae'r twll yn y ffordd rydych wedi sylweddoli arno'n mynd yn fwy dros yr wythnosau diwethaf. Ond, yn anffodus, ni allwch byth fod yn gwbl sicr o'r hyn sydd rownd y gornel nesaf tan eich bod yno. Cerbyd sydd wedi torri lawr, malurion, cerddwyr ar y ffordd, rhywun yn marchogaeth...unrhyw beth.

Mae'r rhan fwyaf ohonom eisoes yn gwneud hyn ond mae'n werth cofio y dylem bob amser reidio ar gyflymder a fydd yn ein galluogi i stopio o fewn y pellter y gallwn ei weld sy'n glir.

Mae terfynau cyflymder yn uchafswm absoliwt – gallai fod yn amhriodol reidio ar y cyflymder hwnnw yn aml, felly mae angen i ni ddefnyddio ein barn ein hun.

Mae pob un ohonom yn gwybod nad y ffyrdd yw'r lle gorau i ddal yr 'apex' neu geisio rhoi ein pen-glin mor agos at y tarmac â phosibl. Os hoffech chi wneud pethau fel hyn, dylech ystyried mynychu diwrnod ar drac i gael hyfforddiant proffesiynol mewn amgylchedd diogel sydd wedi'i reoleiddio.

Am fod beiciau yn fwyaf sefydlog pan fydd y pwysau wedi'i ddyrannu'n gyfartal a phan fyddant yn teithio mewn llinell syth, dylech bob amser fod yn ymwybodol o'r hyn rydych yn disgwyl i'ch beic ei wneud mewn tro yn y ffordd – mae mynd yn rhy gyflym a disgwyl i'r teiars afael yn y ffordd yn gofyn am drwbwl. Pan fydd hi'n bwrw glaw neu'n rhewllyd, a phan fydd draeniau neu dyllau caead yn wlyb, gall y canlyniad fod yn wahanol i'r hyn roeddech chi'n ei obeithio.

Cofiwch fod angen 'Brecio Cyn y Tro yn y Ffordd, Nid Wrth Droi' – gallai'r cam syml hwn eich helpu i baratoi am yr hyn sydd rownd y gornel nesaf, a sicrhau eich bod yn cyrraedd adref yn ddiogel, gobeithio.

Facebook @roadsafetywales
Twitter @roadsafetywales

Telephone: +44 (0)29 20 250 600
Gwanwyn 2021